Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Adolygiad o'r Ddeddf Crwydradaeth: ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth newydd effeithiol

Yn cau 05 Mai 2022

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru.  Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gydweithio i gefnogi partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar siapio a datblygu polisi cenedlaethol ac ymarfer lleol.

Cefnogir yr ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

### Cwestiwn 1:Ydych chi'n cytuno y dylai'r llywodraeth gyflwyno troseddau newydd i atal mathau penodol o gardota a allai fod yn niweidiol i unigolion neu i gymunedau?

**Ymateb:** Na, nid ydym yn cytuno. Mewn egwyddor, gall hwn ymddangos yn syniad cadarnhaol, ond rydym yn pryderu y gallai arwain at droseddoli pobl ddiamddiffyn sydd eisoes yn ddigartref ac yn brin o adnoddau ariannol. Fel y soniwyd yn yr ymgynghoriad, mae camfanteisio a gweithgarwch troseddol eisoes yn cael ei gwmpasu mewn deddfwriaeth arall yn yr un modd ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a hebrwng rhywun i beiriant tynnu arian dan orfodaeth, felly rydym yn ansicr ynghylch yr angen am droseddau a deddfwriaeth ychwanegol.

Gallai'r ffaith nad yw cardota yn cael ei ddiffinio yn gyfreithiol ei gwneud yn anodd i weithredu hyn, dywed yr ymgynghoriad: "*gellid ei ystyried fel gofyn am roddion ar strydoedd neu fannau cyhoeddus eraill*" (paragraff 16). Gallai hynny gwmpasu yn ddamweiniol achosion eraill nad ydynt yn gardota, er enghraifft rhywun sy'n ceisio mynd adref ar ôl colli eu ffrindiau a'u harian ar noson allan.

Mae angen gofyn hefyd ar bwy fydd y cyfrifoldeb yn disgyn, oherwydd ymddengys y byddai'n disgyn ar yr heddlu a'r awdurdodau lleol. Os yw'r rhain yn bwerau a gofynion newydd, a fydd hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i alluogi pob heddlu ac ardal awdurdod lleol i'w gweithredu'n llawn yn yr un ffordd?

**Cwestiwn 2: Ydych chi’n cytuno fod cardota yn niweidiol i unigolion a chymunedau? Pa fathau o gardota sy’n achosi’r niwed mwyaf i unigolion a/neu gymunedau? Ar wahân i’r rhai a restrir uchod, a oes unrhyw fathau yn peri pryder penodol?**

**Ymateb:**Os yw unigolyn yn cael ei yrru i gardota, gellid dadlau mewn nifer o amgylchiadau mai hwn fyddai’r dewis olaf i’r person hwnnw, ac y gallai cardota eu gadael yn ddiobaith ac yn eithriedig o’r gymuned. Mae angen i gydlyniant cymunedol gwirioneddol ymgorffori a chefnogi’r unigolion hyn fel nad ydynt bellach mewn angen ar y lefel hon.

Rydym yn pryderu am rai o’r enghreifftiau a nodwyd lle byddai’r ddeddfwriaeth newydd yn gwahardd:

- “*19c. Achosion o gardota mewn lleoliadau megis canolfannau trafnidiaeth, mynedfeydd safleoedd busnes a pheiriannau tynnu arian, neu fynd at geir sy’n aros mewn traffig, lle mae’n debygol o gael effaith andwyol neu niweidiol ar safon bywyd y bobl yn yr ardaloedd hynny, ond lle nad oes unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol arall yn digwydd.”*
  Y pryder yw nad yw’r rheiny sy’n fwyaf agored i ecsbloetiaeth ac ymosodiadau corfforol yn mynd i fod yn weledol nac i gael eu hamddiffyn a gallai hynny arwain at weithgarwch troseddol mwy uniongyrchol.
- “*19d. Enghreifftiau o gardota parhaus, neu lle mae unigolyn wedi gwrthod cefnogaeth, neu tra ei fod yn derbyn budd-daliadau lles.”*
  Os yw rhywun sy’n derbyn budd-daliadau lles yn cardota, mae’n fwy tebygol o fod yn arwydd bod pethau eraill yn effeithio ar amgylchiadau’r unigolyn, megis camfanteisio troseddol. Oherwydd bywydau caotig a diffyg mynediad at adnoddau eraill, i’r rheiny heb breswylfa sefydlog, gall y rhwystrau i hawlio budd-daliadau lles eu gorfodi i gardota neu i rywun gamfanteisio arnynt.
- “*19f. Unrhyw amgylchiadau eraill o ran cardota sy’n achosi niwed i unigolion neu gymunedau a mannau cyhoeddus.”*
  Rydym yn poeni y gallai hyn arwain at unigolion yn aflonyddu ar rai o bobl fwyaf diamddiffyn ein cymunedau a’n cymdeithas. Nid yw’r ddogfen ymgynghori yn gwneud yn glir pwy fyddai’n penderfynu hynny - ai’r llys ynteu unigolion yn y gymuned?

**Cwestiwn 3: Ydych chi’n cytuno y gallai fod yn fanteisiol codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r pethau sy’n ysgogi cardota, a’r modd y gallai’r gweithgarwch hwn gynnal bywyd unigolyn ar y stryd?**

**Ymateb:**Mae gwahanol ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, a byddai’n bwysig edrych ar y rhesymau mwy eang pam fod rhywun yn cael ei gymell i gardota na’r hyn a drafodir yn yr ymgynghoriad, sy’n dangos ychydig iawn o resymau ac nad yw o reidrwydd yn wir adlewyrchiad. Er enghraifft, nid oes sôn am gyn-filwyr, tlodi, landlordiaid sy’n gallu troi tenantiaid allan o’u tai am ddim rheswm, na chostau byw cynyddol a allai arwain at ddigartrefedd neu wthio rhywun i gardota, neu i gael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw neu weithgarwch troseddol.

Hefyd, mae’r rheiny sy’n defnyddio sylweddau (cyffuriau neu alcohol) - efallai bod rhai pobl yn y sefyllfa honno oherwydd eu bod yn gaeth, tra bo nifer o bobl yn mynd yn gaeth oherwydd eu bod yn ddigartref ac mewn sefyllfa enbyd. Pe baem fel cymdeithas yn gweithio ar gynhwysiant a chefnogaeth a helpu pobl i fynd i’r afael â materion negyddol, mae’n debygol na fyddai nifer o’r bobl ddiamddiffyn hyn yn mynd yn gaeth yn y lle cyntaf.

Byddai ymgyrch codi ymwybyddiaeth, a fyddai o bosibl yn gosod y bai ar yr unigolion sy’n cardota, yn creu stigma hyd yn oed yn fwy, ac felly byddai’n debygol o yrru pobl ymhellach i ffwrdd oddi wrth y gwasanaethau cymorth y mae’r ymgynghoriad yn ceisio eu cael i ymgysylltu â nhw.

**Cwestiwn 4: Pa fathau o droseddau a phwerau, gofynion a chostau cysylltiedig sy’n fwyaf priodol i gymell unigolion i ymgysylltu â chefnogaeth? Byddem yn croesawu unrhyw farn am yr opsiynau presennol sydd ar gael i’r heddlu, awdurdodau lleol a’r llysoedd fel yr amlinellir uchod.**

**Ymateb:**Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylai’r ddirwy ar gyfer troseddau angharcharadwy gael ei gostwng i ddirwy lefel 1 sef uchafswm o £200, ond mae hyn yn dal i fod yn rhy uchel ac yn gorfodi unigolion i barhau â’r ymddygiad y ceisir ei atal. Efallai y byddai’n fwy priodol eu cael i ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol sy’n caniatáu iddyn nhw fod yn aelodau gweithredol o’r gymuned yn hytrach na’u rhoi mewn mwy o ddyled, a’r risg o fethu â thalu a allai arwain at garchariad.

Mae un frawddeg yn 26c ynglŷn â gorchmynion cymunedol yn aneglur “*Fodd bynnag, mae’n rhaid gosod un gofyniad at ddibenion cosbi a/neu osod dirwy yn ogystal â’r gorchymyn cymunedol*.”Gan eu bod eisoes yn mynd i gael gorchymyn cymunedol, ein pryder yw pa fath o gosb y byddent yn ei chael? Nid yw hyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori a gallai atal pobl rhag ymgysylltu â gwasanaethau os oes perygl o gosb.

Rydym yn cymryd i ystyriaeth ym mharagraff 27 bod y meysydd hyn yn ddatganoledig yng Nghymru gan eu bod yn gysylltiedig ag Iechyd. Ymddengys bod y paragraff hwn hefyd yn rhoi’r bai ar y rheiny sy’n cardota yn hytrach nag edrych ar faterion ehangach yn y gymdeithas. Nid yw pawb sy’n byw ar y stryd ar gyffuriau neu’n defnyddio sylweddau eraill, nid ydynt chwaith yn droseddwyr, ar fudd-daliadau lles nac yn derbyn unrhyw incwm arall. Nid oes unrhyw sôn am gyn-filwyr, tlodi, landlordiaid sy’n gallu troi tenantiaid allan o’u tai am ddim rheswm, na chostau byw cynyddol, nac unrhyw un o’r achosion eraill a allai arwain at ddigartrefedd, cardota a diymgeledd.

**Cwestiwn 5: Beth arall ellid ei wneud i sicrhau bod unrhyw droseddau newydd cardota yn cefnogi'r amgylchedd cywir i ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu â gwasanaethau i bobl ddiamddiffyn?**

**Ymateb:**Os yw'r cardota'n digwydd oherwydd camfanteisio, ni ddylid cofnodi unrhyw drosedd yn erbyn yr unigolyn diamddiffyn. Yn hytrach, dylent gael eu rheoli o dan y ddeddfwriaeth ddiogelu berthnasol (maes datganoledig).

Mae atal yn elfen allweddol o'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw yng Nghymru, boed hynny'n atal troseddau cyntaf neu atal ail-droseddu. Nid yw darn o bapur neu ddirwy yn mynd i ddatrys y broblem ymgysylltu â gwasanaethau, mae angen gwasanaethau estynedig sy'n gallu helpu unigolion i nodi a chael mynediad at eu gwasanaethau eu hunain. I unigolion sy'n byw ar y strydoedd neu sydd â bywydau caotig, yn aml mae'n anodd iddyn nhw gael patrwm dyddiol os nad ydynt yn gallu cael mynediad at galendr neu amserydd. Gan hynny, mae'n bosibl nad ydynt yn gwybod beth yw'r amser na pha ddiwrnod yw hi, a gall hynny arwain at fethu apwyntiadau, boed hynny ar gyfer gwasanaethau cymorth, hawliadau lles neu iechyd. Mae angen rhoi systemau a phrosesau amgen ar waith i ymateb i anghenion yr unigolion.

**Cwestiwn 6: Pa newidiadau a ddylid eu hystyried er mwyn galluogi'r heddlu, awdurdodau lleol ac asiantaethau lleol eraill i ymgysylltu'n well â'r rheiny sy'n cysgu ar y strydoedd a'u cynorthwyo i adael y strydoedd? Beth yw'r dull gweithredu gorau os yw unigolion yn gwrthod cefnogaeth neu os oes ymddygiad niweidiol?**

**Ymateb:** Yn gyntaf, mae tai yn faes datganoledig yng Nghymru ac mae'r dull o ymdrin â digartrefedd eisoes yn cael ei gwmpasu mewn deddfwriaeth yng Nghymru, megis Deddf Tai (Cymru) 2014 gyda'r cod canllawiau a gyhoeddwyd yn 2016, a Llywodraeth Cymru'n ehangu'r diffiniad o bobl ddiamddiffyn er mwyn cynnwys unrhyw un sydd mewn perygl o gysgu ar y stryd o safbwynt iechyd y cyhoedd. Mae hwn yn ddull gweithredu y disgwylir iddo barhau y tu hwnt i'r pandemig gan fod Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn rhoi blaenoriaeth i drawsnewid gwasanaethau digartrefedd yn gyfan gwbl yn ystod tymor presennol y Senedd.

Credwn mai nid ail-droseddoli digartrefedd yw'r ffordd o ddatrys digartrefedd, yn hytrach rhaid darparu cymorth i alluogi a grymuso'r unigolyn i gael mynediad at gefnogaeth ac i osgoi'r angen i fyw ar y stryd bellach. Er enghraifft, yn ystod pandemig Covid defnyddiwyd dulliau arloesol a arweiniodd at ostwng niferoedd y bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau estynedig holistaidd ac er eu bod yn mynd â llawer o amser, cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol gyda nifer o bobl. Mae angen adnoddau ychwanegol a dull o weithredu mewn partneriaeth er mwyn medru darparu i'r lefel honno.

Mae'r Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru wedi mabwysiadu ystod o ddulliau gweithredu i ymgysylltu ag unigolion sy'n ofni

gwasanaethau statudol, gan gynnwys prosiectau a gomisiynir gan y sector elusennol a gwirfoddol.

Pobl sy'n cysgu ar y stryd yw ochr weledol digartrefedd. Mae eraill sy'n cysgu ar soffas neu'n byw mewn mathau eraill o lety sy'n agored i gamfanteisio oherwydd hynny ac nid yw'r bobl hynny o reidrwydd yn hysbys i awdurdodau statudol.

**Cwestiwn 7: Pa newidiadau eraill y dylid eu hystyried er mwyn galluogi'r heddlu, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ymgysylltu yn well â phobl sy'n cysgu ar y stryd, gan gynnwys y rheiny sy'n cysgu mewn pebyll neu sy'n tresmasu ar eiddo preifat?**

**Ymateb:**Mae'n aneglur pam mae'r ymgynghoriad ym mharagraff 32 wedi canolbwyntio ar wersylloedd pebyll yn yr Unol Daleithiau a'r problemau sydd ganddynt yno, yn hytrach nag edrych ar wledydd eraill sydd wedi bod yn fwy llwyddiannus yn y maes hwn.

Credwn y dylai hwn fod yn rhan o ymgynghoriad gwahanol, gan fod perygl i set benodol o leiafrifoedd ethnig, sef y cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr, gael eu cynnwys trwy ddamwain yn y ddeddfwriaeth newydd.

Sylwch hefyd ar ein hymateb i gwestiwn chwech a'r gwersi a ddysgwyd trwy gydol y pandemig o ran darparu gwasanaethau a lleihau digartrefedd yng Nghymru.

**Cwestiwn 8:**A oes unrhyw faterion eraill a fyddai'n codi o ddiddymu'r Ddeddf Crwydradaeth y credwch y dylid eu hystyried wrth ddwyn deddfwriaeth newydd ymlaen?

**Ymateb:**Ffocws newydd ar gefnogi cyn-filwyr mewn modd sy'n briodol i'w hoedran er mwyn atal  eu gwahanu'n barhaus oddi wrth y gymuned ehangach. [Rydym yn siŵr bod eraill i'w hychwanegu yma].

**Cwestiwn 9: Beth ydych chi'n ystyried fydd effaith unrhyw un o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer deddfwriaeth newydd o ran cydraddoldeb ymysg unigolion â nodweddion a ddiogelir? Rhowch resymau ac unrhyw dystiolaeth y credwch sy'n berthnasol.**

**Ymateb:**Fel y soniwyd yn flaenorol yn ein hymateb, mae cyn-filwyr yn peri pryder penodol.

Mae ystod eang o wybodaeth hefyd sy'n dangos bod nifer gynyddol o bobl ifanc LHDTC+ yn mynd yn ddigartref, ac felly mae'n bosibl eu bod mewn llawer mwy o berygl o gael eu targedu gan y ddeddfwriaeth ar adeg pan maent eisoes yn eithriadol o ddiamddiffyn. Os ydynt yn aros ar yr aelwyd deuluol, fel allent fod mewn perygl o fathau eraill o gamdriniaeth, gan gynnwys camdriniaeth gorfforol ac emosiynol yn ogystal â therapi trosi.

Mae ymadawyr gofal yn grŵp arall sy’n fwy tebygol o fynd yn ddigartref, gydag erthygl ddiweddar yn y Guardian yn awgrymu fod un o bob pedwar yn canfod eu hunain yn ddigartref yn 18 oed, felly mae’r bobl ifanc hyn mewn llawer mwy o berygl o ddisgyn o dan y ddeddfwriaeth hon a chael eu criminaleiddio pan nad yw’r cyfleoedd amgen sydd ar gael i bobl ifanc eraill ar gael.

Er bod mwy o dystiolaeth o ddynion yn cardota ar y strydoedd, fe allai hynny guddio’r ffaith bod merched yn cael eu hecsploetio gan y diwydiant rhyw neu gaethwasanaeth domestig, ac yn hytrach na chardota maen nhw’n cael eu gorfodi i ddarparu gwasanaethau amgen.

Yn aml nid oes gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr gartref sefydlog gan eu bod yn symud o amgylch gwahanol leoedd a safleoedd. Fel y soniwyd yn gynharach yn ein hymateb, mae perygl iddyn nhw gael eu dal trwy amryfusedd yn y ddeddfwriaeth hon, a allai arwain at eu pellhau oddi wrth gefnogaeth a gwasanaethau statudol.

Mae’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd wedi’i deddfu yng Nghymru, ond nid yn Lloegr, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, a’r gwasanaethau tân ac achub i:

> “*Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynglŷn â sut i arfer ei swyddogaethau, rhoi sylw dyledus i ba mor ddymunol fyddai eu harfer yn y modd a fwriedir i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.”*

Yn gyffredinol, mae pobl sy’n cardota o dan anfantais economaidd-gymdeithasol (tlodi) ac felly bydd unrhyw ddeddfwriaeth, offer a phwerau newydd yn effeithio ar y rhan hon o’r boblogaeth yn fwy uniongyrchol ac arwyddocaol. Byddai dirwyo rhai o bobl dlotaf cymdeithas yn ymddangos yn gam yn ôl ac yn un a allai wthio’r bobl yma i gael eu hecsploetio neu i mewn i drosedd a gangiau troseddol.

Byddem yn disgwyl i asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb gael ei gynnal i fesur effaith posibl unrhyw newidiadau i’r ddeddfwriaeth ac i gamau gweithredu gael eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol a’u lleihau.

**Cyflwynwyd yr ymateb gan:**


Enw: Sarah Capstick
Swydd: Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith / Dirprwy Bennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel.
Sefydliad: Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, sy'n cael ei gynnal gan CLlLC
Cyfeiriad: Un Rhodfa'r Gamlas, Dumballs Road, Caerdydd CF10 5BF
E-bost: safercommunities@wlga.gov.uk neusarah.capstick@wlga.gov.uk
Rhif ffôn: 07384469664